cbac wjec

## SAFON UWCH BIOLEG / CEMEG / FFISEG

# CYLCHLYTHYR - IONAWR 2024

### UNED 5 – ARHOLIAD YMARFEROL

Fel y nodwyd yng Nghylchlythyr rhif 29: Mae newid wedi'i wneud i'r manylebau TAG Bioleg, TAG Cemeg a TAG Ffiseg ar gyfer haf 2024 ymlaen. Bydd ymgeiswyr yn cael rhestr o'r prif feysydd testun i'w hasesu yn yr Arholiad Ymarferol Uned 5 cyn yr asesiad.

Darperir y wybodaeth hon yn y dogfennau "Cyfarwyddiadau i athrawon / swyddogion arholiadau" a fydd yn cael eu hanfon i'r canolfannau ym mis Ionawr. Dylid copïo'r dudalen berthnasol yn y dogfennau a'u rhoi i'r ymgeiswyr cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn. Cyhoeddir y wybodaeth hon ar dudalennau gwe TAG Gwyddoniaeth CBAC.

Mae'r dyddiadau allweddol ar gyfer yr holl arholiadau Uned 5 i'w cael ar dudalennau gwe TAG Gwyddoniaeth CBAC.

### CYRSIAU HYFFORDDI DYSGU PROFFESIYNOL

Mae sesiynau DPP ar-lein rhad ac am ddim adborth ar arholiadau haf 2023 i gyd bellach wedi'u cynnal yn ystod yr hydref. Mae cyflwyniadau PowerPoint ar gyfer yr holl gymwysterau TAG Gwyddorau a Lefel 3 Gwyddor Feddygol bellach ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg ar y wefan ddiogel yn y ffolder DPP.

Bydd digwyddiadau DPP ar-lein a gynlluniwyd i gynnig amrywiaeth o ddulliau i athrawon y gellid eu defnyddio i wella'r gwaith o addysgu rhai o'r cysyniadau mwy anodd yn y manylebau CBAC TAG Bioleg, Cemeg a Ffiseg, yn cael eu cynnal yn ystod mis Ionawr a Chwefror 2024. Bydd y sesiynau awr a hanner o hyd yn canolbwyntio ar pam mae rhai cysyniadau yn anodd i ddysgwyr ac yn amlygu ffyrdd y gellid eu gwneud yn fwy hygyrch.

30/01/24 16:00-17:30 Dulliau addysgu ar gyfer CBAC TAG Bioleg

06/02/24 16:00-17:30 Dulliau addysgu ar gyfer CBAC TAG Cemeg

20/03/24 16:00-17:30 Dulliau addysgu ar gyfer CBAC TAG Ffiseg

### LEFEL 3 GWYDDOR FEDDYGOL

Mae ein cymhwyster Gwyddor Feddygol diwygiedig wedi'i gyflwyno i'r Adran Addysg ac Ofqual i'w gymeradwyo i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025.

Rydym ar hyn o bryd yn aros am adborth ar ein cynigion ac yn disgwyl gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ganolfannau ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

## CYRSIAU HYFFORDDI DYSGU PROFFESIYNOL

Bydd cyrsiau DPP undydd wyneb yn wyneb a gynlluniwyd ar gyfer ymarferwyr sy'n addysgu **manylebau CBAC Gwyddor Feddygol** yn cael eu cynnal yn ystod mis Ionawr 2024. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cynllunio i gynnig amrywiaeth o ddulliau i athrawon y gellid eu defnyddio i wella'r gwaith o addysgu rhai o'r cysyniadau mwy anodd yn y cymwysterau Lefel 3 Gwyddor Feddygol, yn cynnwys yr unedau a asesir gan Asesiad Di-arholiad. Bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar pam mae rhai cysyniadau yn anodd i ddysgwyr ac yn amlygu ffyrdd y gellid eu gwneud yn fwy hygyrch.

23/01/24 Caerdydd 09:30-15:30 Digwyddiadau ar gyfer 23/01/2024 (ticketsolve.com)

24/01/24 Swindon 09:30-15:30 Digwyddiadau ar gyfer 24/01/2024 (ticketsolve.com)

Ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gallu bod yn bresennol yn y diwrnodau undydd wyneb yn wyneb, mae cyrsiau DPP ar-lein a gynlluniwyd ar gyfer ymarferwyr sy'n addysgu'r **manylebau CBAC Gwyddor Feddygol** yn cael eu cynnal yn ystod mis Chwefror 2024. Mae'r sesiwn 2 awr o hyd wedi'i chynllunio i gynnig amrywiaeth o ddulliau i athrawon y gellid eu defnyddio i wella'r gwaith o addysgu rhai o'r cysyniadau mwy anodd yn y cymwysterau Lefel 3 Gwyddor Feddygol, yn cynnwys yr unedau a asesir gan Asesiad Di-arholiad. Bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar pam mae rhai cysyniadau yn anodd i ddysgwyr ac yn amlygu ffyrdd y gellid eu gwneud yn fwy hygyrch.

05/02/24 16:00-18:00 Dulliau addysgu Lefel 3 Gwyddor Feddygol Unedau 1, 2 a 3

26/02/24 16:00-18:00 Dulliau addysgu Lefel 3 Gwyddor Feddygol Unedau 4, 5 a 6